LANAnC36

Gwerthuso gwybodaeth sydd yn berthnasol i ddigwyddiadau yn ymwneud ag anifeiliaid

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwerthuso gwybodaeth sydd yn berthnasol i ddigwyddiadau yn ymwneud ag anifeiliaid, y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth bosibl ar gyfer gweithredu yn erbyn unigolion. Byddai hyn yn cynnwys amheuaeth o fethu â bodloni anghenion lles anifeiliaid, yn cynnwys cam-drin, niwed neu esgeulustod.

Mae'n cynnwys gwerthuso'r wybodaeth o ran ei harwyddocâd, ei dilysrwydd a'i dibynadwyedd. Lle bo angen, mae'n rhaid i chi egluro'r wybodaeth sydd yn amwys neu'n annelwig, a chael safbwyntiau arbenigol. Mae'r safon hefyd yn cynnwys argymell gwneuthurwyr penderfyniadau i weithredu.

Defnyddir y term "ceidwad" i ddynodi'r unigolyn sydd yn gyfrifol am reolaeth a lles yr anifail; gall hwn fod yn berchennog neu beidio.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth berthnasol lles anifeiliaid trwy ymchwilio i fethiannau a nodir i fodloni anghenion lles anifeiliaid a gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill i gynorthwyo'r gwaith o erlyn y rheiny sydd wedi methu â bodloni anghenion lles anifeiliaid.

Mae'r rheiny sydd yn ymgymryd â'r rôl hon yn debygol o fod yn gweithio i gorff cydnabyddedig sydd yn gyfrifol am ddiogelu lles anifeiliaid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
gwerthuso'r wybodaeth sydd yn berthnasol i ddigwyddiadau yn ymwneud ag anifeiliaid gan ddefnyddio'r dulliau perthnasol
2.
nodi ffeithiau o dystiolaeth a gwybodaeth sydd ar gael sydd yn berthnasol i adroddiadau o ddigwyddiadau sydd yn ymwneud ag anifeiliaid neu fethiant i fodloni anghenion lles anifeiliaid
3. gwerthuso a chofnodi arwyddocâd, dilysrwydd a dibynadwyedd gwybodaeth a baratowyd gan eraill, a nodi'r cyfraniad y mae'n ei wneud i'r corff tystiolaeth
4. cael eglurhad o'r ffynonellau perthnasol os yw gwybodaeth yn annelwig neu'n amwys
5. gwerthuso cyfanswm y dystiolaeth o ran digonoldeb, dilysrwydd a dibynadwyedd
6. cael deunydd ychwanegol o ffynonellau perthnasol os yw maint y dystiolaeth yn anghyflawn
7. adolygu tystiolaeth a gwybodaeth yn systematig gan ddefnyddio'r dulliau cywir, a chofnodi ffactorau sydd yn debygol o ddylanwadu ar ganlyniad yr ymchwiliad
8. cael cyngor arbenigol am broblemau penodol y nodir eu bod yn berthnasol i'r ymchwiliad
9.
gwerthuso'r opsiynau ar gyfer gweithredu trwy bennu'r cyfyngiadau â'r cyfleoedd sydd yn deillio o bob darn o gyngor arbenigol
10.
cyfiawnhau eich argymhellion ar gyfer gweithredu o ran y gyfraith, canlyniadau tebygol parhau â'r siawns o ganlynad llwyddiannus
11. cyflwyno eich argymhellion ar gyfer gweithredu ar fformat perthnasol a'u hanfon ymlaen at y gwneuthurwr penderfyniadau ar gyfer gweithredu
12. hysbysu'r unigolyn perthnasol o'i hawliau â'r camau gweithredu a fwriedir os oes posiblirwydd o achos cyfreithiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y dulliau sydd ar gael ar gyfer gwerthuso gwybodaeth sydd yn berthnasol i adroddiadau o ddigwyddiadau yn ymwneud ag anifeiliaid neu'r methiant i fodloni anghenion lles anifeiliaid
2. y dulliau sydd ar gael ar gyfer dadansoddi gwybodaeth a chasglu data
3. sut i bennu arwyddocâd a pherthnasedd y wybodaeth
4. sut i bennu digonoldeb, dilysrwydd a dibynadwyedd y wybodaeth
5. ble i gael deunydd ychwanegol os yw'r dystiolaeth yn anghyflawn
6. y cofnodion y mae angen eu cadw mewn perthynas â digwyddiadau yn ymwneud ag anifeiliaid a phwysigrwydd eu cwblhau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisïau sefydliadol
7. cwmpas, cymhwysedd a pherthnasedd y ddeddfwriaeth yn ymwneud â gofal anifeiliaid a chynnal ymchwiliadau
8. eich cyfrifoldebau eich hun yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol
9. y dulliau sydd ar gael ar gyfer gwerthuso a phenderfynu ar opsiynau ar gyfer gweithredu â’r meini prawf y dylid eu defnyddio
10. yr arwyddion o iechyd ac ymddygiad arferol anifeiliaid
11. sut i adnabod cyflyrau anarferol anifeiliaid
12. y ffordd y gall methu â bodloni anghenion lles anifeiliaid effeithio ar eu hiechyd a'u hymddygiad

## Cwmpas/Ystod

**Argymhellion ar gyfer gweithredu:**

1. camau cyfreithiol
2. rhybudd anffurfiol
3. cyngor ac arweiniad
4. dim gweithredu

**Gwerthuso gwybodaeth, yn erbyn y meini prawf perthnasol hyn:**

1. brys o ran gweithredu
2. difrifoldeb yr honiad
3. effaith oedi ar les yr anifail

## Geirfa

**Deddfwriaeth gyfredol lles anifeiliaid:**

- Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid
- Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon)
- Deddf Cŵn Peryglus
- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE)

* *

**Gallai tystiolaeth gynnwys:**

- cyfryngau gweledol e.e. ffotograffau, Teledu Cylch Cyfyng
- sbesimenau
- cofnodion milfeddygol
- datganiadau ysgrifenedig
- eitemau ffisegol
- cofnodion yn ymwneud ag ymddygiad a hanes hyfforddiant yr anifail
- asesiad ymddygiadol
- gwybodaeth

**Mae digwyddiadau yn ymwneud ag anifeiliaid yn cynnwys:**

- cam-drin
- niwed
- esgeulustod
- cael eu gadael
- mynd yn strae
- niwsans

**Pum angen lles anifeiliaid:**

- amgylchedd addas (lle i fyw)
- deiet addas
- gallu i arddangos ymddygiad arferol
- diogelwch rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefydau
- lletya gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt (lle y bo'n berthnasol)

LANAnC36

Gwerthuso gwybodaeth sydd yn berthnasol i ddigwyddiadau yn ymwneud ag anifeiliaid

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAC11 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal anifeiliaid |
| **Cyfres/Set** | Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | anifail; cam-drin; niwed; tystiolaeth |